# Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 6 Mai 2015** |
| Amser: | **09.00 – 12.20** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
**http://senedd.tv/cy/2955**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion Cryno:

MeetingTitle

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Christine Chapman AC (Cadeirydd)**<br>**Peter Black AC**<br>**Alun Davies AC**<br>**Jocelyn Davies AC**<br>**Janet Finch-Saunders AC**<br>**Mike Hedges AC**<br>**Gwyn R Price AC**<br>**John Griffiths AC (yn lle Gwenda Thomas AC)**<br>**Rhodri Glyn Thomas AC** |
| Tystion: | **Lyn Hambridge, Cyngor Sir Penfro**<br>**Stuart Ropke, Cartrefi Cymunedol Cymru**<br><br>**Helen Northmore, Chartered Institute of Housing**<br>**Sam Austin, Llamau**<br>**Emma Reeves-McAll, Tai Pawb**<br>**Andrew Morris, Y Tribiwnlys Eiddo Preswyl** |
| Staff y Pwyllgor: | **Claire Morris (Ail Clerc)** |

Sarah Beasley (Clerc)
Elizabeth Wilkinson (Ail Clerc)
Chloe Davies (Dirprwy Glerc)
Sarah Sargent (Dirprwy Glerc)
Helen Roberts (Cynghorydd Cyfreithiol)
Jonathan Baxter (Ymchwilydd)
David Smith (Cynghorwr Arbenigol)
Robin Wilkinson (Ymchwilydd)

---

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1. Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Mark Isherwood AC a Gwenda Thomas AC. Dirprwyodd John Griffiths AC ar ran Gwenda Thomas AC yn unol â Rheol Sefydlog 17.48.

1.2. Yn unol â Rheol Sefydlog 17.22, etholwyd Mike Hedges AC yn Gadeirydd dros dro yn absenoldeb Christine Chapman AC.

1.3. Croesawodd y Cadeirydd dros dro yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.4. Gwnaeth Alun Davies AC a Janet Finch-Saunders AC ddatganiadau o fuddiant fel landlordiaid yn y sector rhentu preifat.

## 2 Y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru): Sesiwn dystiolaeth 4 – Y Sefydliad Tai Siartredig, Cartrefi Cymunedol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Helen Northmore, Cyfarwyddwr Sefydliad Tai Siartredig Cymru
- Stuart Ropke, Cartrefi Cymunedol Cymru
- Lyn Hambridge, Pennaeth Tai, Cyngor Sir Penfro, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

2.2 Cytunodd Cartrefi Cymunedol Cymru i ddarparu rhywfaint o wybodaeth bellach i'r Pwyllgor, fel a ganlyn:

· nifer y bobl ifanc 16 a 17 mlwydd oed sy'n ymrwymo i gontractau meddiannaeth yn y sector tai cymdeithasol ar hyn o bryd.
· effaith diwygio lles ar ôl-ddyledion rhent difrifol a goblygiadau cael gwared ar Sail 8 ar gyfer cymdeithasau tai.

2.3 Cytunodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddarparu rhywfaint o wybodaeth bellach i'r Pwyllgor fel a ganlyn:
· darparu asesiad anghenion statudol ar gyfer pob person ifanc 16 a 17 mlwydd oed cyn eu bod yn ymrwymo i gontract meddiannaeth.

## 3 Y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru): Sesiwn dystiolaeth 5 - Cymorth Cymru a Tai Pawb

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Sam Austin, Cymorth Cymru
- Emma Reeves-McAll, Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Tai Pawb

3.2 Cytunodd Cymorth Cymru i ddarparu rhywfaint o wybodaeth bellach i'r Pwyllgor fel a ganlyn:

• barn eich aelodau ar y darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â'r angen i gyflwr yr annedd fod yn addas i bobl fyw ynddo.

• barn eich aelodau ar yr hyn y gellid ei gynnwys mewn safon cyfwerth â safon ansawdd tai Cymru.

3.3 Cytunodd Tai Pawb i ddarparu rhywfaint o wybodaeth bellach i'r Pwyllgor fel a ganlyn:

• barn eich aelodau ar yr hyn y gellid ei gynnwys mewn safon cyfwerth â safon ansawdd tai Cymru ar gyfer y sector rhentu preifat.

## 4 Y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru): Sesiwn dystiolaeth 6 - Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Andrew Morris, Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru

## 5 Papurau i'w nodi

5.1 Nododd y Pwyllgor y papurau.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod (trafodaeth ar y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitemau 2, 3 a 4, ac ystyried y dull o graffu ar y Bil Amgylchedd Hanesyddol (Cymru))

6.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 7 Y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru): trafodaeth ar y dystiolaeth a ddaeth i law yn sesiynau 4, 5 a 6

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth.

## 8 Bil Amgylchedd Hanesyddol (Cymru): Ystyried dull craffu'r Pwyllgor

8.1 Trafododd y Pwyllgor ei ddull o graffu ar y Bil Amgylchedd Hanesyddol (Cymru).